**ADRODDIAD I'R CYFARFOD LLAWN DAN REOL SEFYDLOG 9.9 - MIS MAI 2001 HYD EBRILL 2002**

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgareddau o fis Mai 2001 hyd Ebrill 2002. Cewch hyd i gopïau o adroddiadau, agendâu, papurau a chofnodion y Pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol (1).

## 2. Aelodaeth

2.1 Dyma aelodau presennol y Pwyllgor: Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd, Lorraine Barrett, Rosemary Butler, Glyn Davies, Delyth Evans, Alison Halford, Jenny Randerson (y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg), Owen John Thomas a Dafydd Wigley. Gwnaeth Glyn Davies gymryd lle Jonathan Morgan o fis Tachwedd 2001; a gwnaeth Dafydd Wigley gymryd lle Gareth Jones o fis Mehefin 2001.

## 3. Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau

3.1 Mae'r cylch gwaith yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Jenny Randerson, ac mae'n cynnwys y celfyddydau a diwylliant, chwaraeon a hamdden, y Gymraeg ac amgueddfeydd a llyfrgelloedd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio wyth corff cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad neu sy'n cael cymorth grant.

## 4. Blaenoriaethau

4.1 Mae'r Pwyllgor wedi rhestru ei flaenoriaethau ac maent i'w gweld yn y flaenraglen waith strategol. Mae'r rhaglen waith yn cysylltu blaenoriaethau'r Pwyllgor â'r targedau a nodir yn strategaeth 'Gwell Cymru' y Cynulliad, yn arbennig o ran hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, creadigrwydd a mentergarwch; hybu proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a sicrhau ei fod yn lle rhagorol i fyw, astudio, cynnal busnes ynddo ac ymweld ag ef; hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth, a chyfleoedd chwaraeon, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach.

4.2 Mae'r Pwyllgor wedi ceisio datblygu ffordd strategol o weithio, gan ganolbwyntio'n benodol ar adolygiad pwysig o'r iaith Gymraeg.

## 5. Gwaith a'r hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn

5.1 Yn ystod cyfnod yr adroddiad fe wnaethom gwrdd 19 o weithiau. Dyma'r prif bethau y gwnaethom eu cyflawni:-

**Datblygu Polisi (Rh.S. 9.7 (i))**

- **Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg.**

5.2 Canolbwyntiodd y Pwyllgor yn bennaf ar yr adolygiad o'r iaith Gymraeg yn ystod cyfnod yr adroddiad.

5.3 Dyma gylch gorchwyl yr adolygiad:-
*"Bydd yr adolygiad yn ceisio mynd ati i ddiffinio amcan y Cynulliad Cenedlaethol o 'greu Cymru ddwyieithog' yn well. Bydd y Pwyllgor yn anelu at awgrymu strategaeth o weithgareddau er mwyn cyflawni'r amcan hwnnw.*

*Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu a ganlyn:-*

- *galluogi pobl i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall mewn pob agwedd o fywyd cenedlaethol ac yn eu cymunedau;*
- *cefnogi'r Gymraeg fel iaith teuluoedd a chymunedau;*
- *darparu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg a'i defnyddio;*
- *hyrwyddo'r un faint o barch at y Gymraeg a'r Saesneg, a chynnal consensws ac ewyllys da cenedlaethol ynghylch dwyieithrwydd.*

*Bydd y Pwyllgor yn archwilio gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a bydd hefyd yn astudio rôl a chyfraniad ystod o gyrff eraill. Bydd y rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n gysylltiedig â datblygu economaidd, sy'n mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol, sy'n gwella dysgu ac yn gwella ansawdd bywyd."*

5.4 Ym mis Ebrill 2001, gwnaeth y Pwyllgor benodi Euryn Ogwen Williams fel ei ymgynghorydd arbenigol. O fis Mai 2001 tan Chwefror 2002, gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniadau llafar gan 54 sefydliad ac unigolyn, derbyniodd 175 ymateb ysgrifenedig a chynhaliodd 6 sioe deithiol ledled Cymru. Gwnaeth y pedwar Pwyllgor Rhanbarth hefyd gynnal sesiynau ymgynghori ar yr adolygiad, ac fe'i trafodwyd gan bron pob un o'r pwyllgorau pwnc eraill. Yn ogystal, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Ar yr un pryd â'r gweithgaredd hwn, mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn adolygu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a cholegau. Disgwylir i adroddiad terfynol y Pwyllgor gael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2002.

- **Gweithgareddau eraill yn ymwneud â'r Gymraeg**

5.5 Cyfrannodd y Pwyllgor gryn dipyn at gynllun iaith Gymraeg y Cynulliad, a bu'n ystyried cynllun drafft ym mis Gorffennaf 2001.

- **Celfyddydau a Diwylliant**

5.6 Cyn iddo gael ei ddiddymu, gwnaeth rhagflaenydd y Pwyllgor sef y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, gyhoeddi dogfen helaeth 'Diwylliant Cytûn' ar y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Etifeddodd y Pwyllgor hwn yr adroddiad, ond ni wnaeth fabwysiadu ei argymhellion yn

ffurfiol.  Mae diddordeb mawr gan y Pwyllgor mewn datblygu argymhellion yr adroddiad, ac mae wedi derbyn Strategaeth Ddiwylliant y Gweinidog ac wedi gwneud sylwadau arni.  Hefyd, gwnaeth y Pwyllgor a Chyngor Celfyddydau Cymru gynnal sesiynau rheolaidd ar ddatblygiadau o ran ailstrwythuro.

- **Chwaraeon**

5.7 Cytunodd y Pwyllgor gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth Chwaraeon yng Nghymru.  Bydd cylch gwaith yr adolygiad hwn yn cael ei ystyried ym mis Gorffennaf 2002.

## 6. <u>Gofynion eraill y Rheolau Sefydlog</u>

- **Adolygiad o Wariant a Gweinyddiaeth (Rh.S. 9.7 (ii))**

6.1 Mae'r Pwyllgor yn craffu ar waith y Gweinidog dros Ddiwylliant trwy gyfrwng ei hadolygiad misol.

6.2 Gofynnodd y Gweinidog dros Gyllid i'r Pwyllgor ystyried pa mor ymarferol oedd cynllun busnes diwygedig Canolfan Mileniwm Cymru.  Ym mis Mai 2001, cyfarfu'r Pwyllgor â chynrychiolwyr o Ganolfan Mileniwm Cymru. Penderfynodd ei fod yn fodlon â chynigion y Ganolfan ac y dylai'r prosiect fynd yn ei flaen.

- **Craffu ar Gyrff Cyhoeddus (Rh.S 9.7 (iii))**

6.3 Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau adolygu gyda rhai o'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) yn ystod cyfnod yr adroddiad, ond fe fydd yn cyfarfod â phob un ohonynt rhwng mis Mai - Gorffennaf 2002. Cyfrannodd y Pwyllgor at adolygiadau pum mlynedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru, ac fe wnaeth gynnal seiswn â'r olaf ynghylch ei ymgynghoriad ar arddangos celf yng Nghymru.  Ystyriwyd hyn hefyd yng nghylch gorchwyl y Comisiwn Brenhinol ar Henebion yng Nghymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

- **Deddfwriaeth (Rh.S. 9.8 (i))**

6.4 Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig y Gweinidog i gynnwys 17 corff yn is-ddeddfwriaeth y Cynulliad dan adran 6 (l) (0) Deddf yr Iaith Gymraeg.

- **Cyllideb (Rh.S. 9.8 (ii))**

6.5 Ym mis Gorffennaf 2001 bu'r Pwyllgor yn ystyried cyllideb ddrafft y Cynulliad ac ym mis Tachwedd 2001 rhoddodd sylwadau ar y cynigion ar gyfer y gyllideb (2).

- **Cwynion (Rh.S. 9.8 (iii))**

6.6 Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod cyfnod yr adroddiad.

- **Penodiadau Cyhoeddus (Rh.S. 9.8 (iv))**

6.7 Ymghynghorwyd â'n henwebion (3) ar gyfer nifer o benodiadau i gyrff cyhoeddus yn ystod cyfnod yr adroddiad.

## 7. Blaenraglen Waith

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor flaenraglen waith strategol (atodiad A) am 2002-03 a blaenraglen waith fanwl am y cyfnod rhwng mis Mai a Gorffennaf 2002. Amageir copïau o'r rhain, er bod yr olaf yn cael ei diweddaru'n gyson.

(1) Ewch i www.cymru.gov.uk i weld papurau'r Pwyllgor Diwylliant
(2) Ewch i www.cymru.gov.uk ac i dudalennau cyllideb a chynllunio strategol i weld copiau o'n hymatebion
(3) Rhodri Glyn Thomas a Rosemary Butler yw'r enwebeion presennol

**PWYLLGOR DIWYLLIANT – BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL Y PWYLLGOR**
**EBRILL 2002- EBRILL 2003**

## Cefndir

1. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith gylchynol sy'n cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf, ac i ymgynghori â Phwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ynghylch y rhaglen cyn hysbysu'r Cyfarfod Llawn.

2. Mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn rhai strategol ac y dylent gwmpasu amserlen 18 mis – 2 flynedd, ynghyd â rhaglenni gwaith manylach yn ymwneud â chyfnod 3 mis.

## Nodau ac amcanion

3. Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi hynny lle gallant gael mwyaf o effaith. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ceisio cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r amcanion a nodir yn *Gwell Cymru*, cynllun strategol y Cynulliad, yn enwedig:

- hybu dinasyddiaeth weithgar, creadigrwydd ac entrepreneuiaeth;
- codi proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a'i sefydlu fel lle o'r radd flaenaf i fyw, astudio, ymweld â hi a chynnal busnes ynddi;
- ehangu'r mynediad i ac ymwybyddiaeth am yr iaith Gymraeg, a diwylliant, treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon Cymru.

## Blaenoriaethau


Bydd y Pwyllgor yn ceisio datblygu dull strategol o ymdrin â'i waith, gan ganolbwyntio yn fanylach ar nifer fechan o flaenoriaethau:

- gorffen ei adolygiad polisi ar yr iaith Gymraeg
- cyflawni adolygiad polisi yn ymwneud â chwaraeon.

Dylai'r adolygiadau polisi hyn gadw'r Pwyllgor yn brysur tan 2003.

## Materion eraill

Bydd materion busnes eraill y Pwyllgor yn cynnwys:

- craffu ar waith Ysgrifennydd y Cynulliad  (Rheol Sefydlog 9.11).
- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad (Rheol Sefydlog 9.8(ii));

- adolygiadau perfformiad rheolaidd y Cyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy’n rhan o’i gylch gwaith (Rheol Sefydlog 9.7(iii));
- ystyried is-ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru fel y bo'n briodol (Rheolau Sefydlog 9.8(I) a 22);
- penodiadau cyhoeddus - bydd 2 enwebai y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn cymryd rhan yn y broses benodi i gyrff cyhoeddus wrth i swyddi gwag godi (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) a 20);
- cwynion - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeirir ato (Rheol Sefydlog 9.8(iii) a 21).

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor** **Chwefror 2002**

**Y PWYLLGOR DIWYLLIANT: BLAENRAGLEN WAITH (CYNHELIR Y CYFARFODYDD YN ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL ONI NODIR YN WAHANOL)**

| | | |
|---|---|---|
| Dydd Mercher<br>17 Ebrill | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg – Trafod y themâu sy'n deillio o'r broses ymgynghori<br>• Statws yr iaith<br>• TGCh<br>• Tai a Chynllunio |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| | 3 | Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru: ymgynghoriad ar arddangos celfyddyd – Cam 2 |
| Dydd Iau<br>25 Ebrill (pm) | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg – Trafod y themâu sy'n deillio o'r broses ymgynghori<br>• Addysg (cyn ysgol ac oedolion)<br>• Datblygu economaidd a chymunedol<br>• Twristiaeth Ddiwylliannol |
| 1 Mai | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg – Trafod y themâu sy'n deillio o'r broses ymgynghori<br>• Rolau<br>• Cyfieithu |
| | 2 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor |
| 15 Mai | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg - Adroddiad Amlinellol - Blaenoriaethau ac Argymhellion |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| 29 Mai | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg – drafft cyntaf yr adroddiad |

| | | |
|---|---|---|
| | 2 | Trafodaeth â'r ITC ar y Mesur Cyfathrebu |
| | 3 | Llyfrgell Genedlaethol Cymru: Adolygiad pum-mlynyddol – drafft cyntaf |
| | 4 | Llyfrgell Genedlaethol Cymru:Trafod adroddiad blynyddol/cynllun corfforaethol |
| 19 Mehefin | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg – ail ddrafft yr adroddiad |
| | 2 | Adroddiad y Gweinidog |
| | 3 | Trafodaeth ar flaenoriaethau'r gyllideb |
| | 4 | Cyngor Celfyddydau Cymru: Trafod adroddiad blynyddol/cynllun corfforaethol |
| 27 Mehefin (Dydd Iau pm) | 1 | Adolygiad o'r Iaith Gymraeg – adroddiad terfynol a therfyn yr adolygiad |
| | 2 | Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru: Trafod adroddiad blynyddol/cynllun corfforaethol |
| | 3 | Cyngor Amgueddfeydd Cymru: Trafod adroddiad blynyddol/cynllun corfforaethol |
| 3 Gorffennaf | 1 | Adroddiad y Gweinidog |
| (Yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru) | 2 | Cyflwyniad gan Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru |
| | 3 | Cyngor Llyfrau Cymru: Trafod adroddiad blynyddol/cynllun corfforaethol |
| [redacted] | | |
| 17 Gorffennaf (lleoliad o | 1 | Adolygiad polisi ar chwaraeon - papur safleoli |
| bosib yng Ngerddi Sophia) | 2 | Trafod â Chyngor Chwaraeon Cymru ynghylch yr adolygiad polisi; ac adroddiad blynyddol/cynllun corfforaethol |
| | | **TORIAD YR HAF** |
| Hydref 2002 – Ebrill 2003 | 1 | Gorffen adolygiad polisi ar chwaraeon |